Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Cyfres Cipolwg ar y Gweithlu

## Gwella telerau ac amodau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru

**Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2024**

Dyma grynodeb o ganfyddiadau arolwg y gweithlu 2023 a ffynonellau eraill sy'n ymwneud â thelerau ac amodau. Fersiwn byr a bachog yw hwn sy'n amlygu'r prif ffeithiau ar eich cyfer chi.*

Am fwy o fanylder a chyd-destun ewch i'r fersiwn llawn, sydd wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ymchwil, data ac arloesi, y: **grwpgwybodaeth.gofalcymdeithasol.cymru**

* Oni bai ein bod yn nodi'n wahanol, mae'r holl ffigurau a nodir yn cyfeirio at bobl gofrestredig a gymerodd ran yn ein harolwg gweithlu.

# Boddhad mewn swydd

Roedd **57%** o weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig yn fodlon ar eu swydd bresennol.

Roedd **76%** yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y bobl a'r teuluoedd y maen nhw'n eu cefnogi.

Cychwynodd **63%** yn y maes er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.

Roedd **70%** yn cytuno eu bod yn gallu diwallu anghenion y bobl roedden nhw'n gofalu amdanyn nhw.

Ymatebodd **44%** eu bod yn 'eithaf tebygol' o adael y sector o fewn y bum mlynedd nesaf a **45%** o'r rheini yn nodi gorweithio fel rheswm dros adael.

Dywedodd **31%** eu bod yn teimlo bod digon o gefnogaeth ar gael i ymdopi â straen yn y gweithle.

# Cyflog ac ad-daliad

Nododd **58%** cyflog isel fel un rheswm dros adael y gweithlu o fewn y pum mlynedd nesaf.

Roedd **33%** yn ei chael hi'n anodd iawn ymdopi'n ariannol, gyda **37%** yn ei chael yn 'eithaf anodd' cael deupen llinyn ynghyd.

Adroddodd **49%** eu bod yn gallu hawlio digon o arian ar gyfer costau teithio cysylltiedig â gwaith.

Dywedodd **26%** eu bod yn fodlon ar eu cyfradd tâl bresennol.

# Buddion cyflogaeth

Dywedodd **88%** bod cynllun pensiwn gweithle ar gael neu eu bod yn derbyn cyfraniad gan eu cyflogwr fel rhan o gynllun pensiwn.

Roedd **82%** yn cael 28 diwrnod o wyliau â thâl (neu'r hyn oedd yn cyfateb pro rata).

Dywedodd **56%** eu bod yn derbyn tâl salwch (yn gostwng i **22%** ar gyfer gweithwyr gofal asiantaeth).

Canran o **49%** oedd yn dweud eu bod yn gallu cymryd mantais o bolisiau sy'n ystyriol o deuluoedd fel gweithio hyblyg, absenoldeb gofalwr, absenoldeb rhiant uwch.

Roedd **30%** yn nodi amodau gwaith/cyflogaeth wael fel rheswm dros ddisgwyl gadael y sector o fewn y pum mlynedd nesaf.

# Sicrwydd a hyblygrwydd

Mae **80%** o bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi eu cyflogi ar gytundeb parhaol. **

Mae **84%** o weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol yn derbyn cyflog blynyddol.

**74%** yw canran y gweithwyr gofal sy'n cael eu talu fesul awr, yn hytrach na chyflog blynyddol.

Mae **52%** o bobl sydd wedi eu cyflogi ar gontract 'dim oriau' yn ffafrio cytundeb oriau penodol, sefydlog.

** ffynhonnell ddata: Casgliad data'r gweithlu (2022).

# Aelodaeth o undeb llafur

Dywedodd **57%** o weithwyr cymdeithasol eu bod yn aelod o undeb llafur.

**38%** oedd canran yr aelodaeth ymhlith rheolwyr gofal cymeithasol; ac roedd **31%** o weithwyr gofal yn dweud eu bod yn aelod o undeb llafur.

## Eisiau gwybod mwy?

Dewch o hyd i'r fersiwn llawn **Gwella telerau ac amodau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru** ar ein gwefan: **grwpgwybodaeth.gofalcymdeithasol.cymru**

## Ffynonellau:


- https://gofalcymdeithasol.cymru/cms-assets/documents/Adroddiad-arolwg-y-gweithlu_2023-10-05-070100_bncb.pdf
- https://gofalcymdeithasol.cymru/cms-assets/documents/Adroddiad-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol-2022.pdf
- Adroddiad Casgliad Data'r Gweithlu, 2022. Mae hwn yn adrodd ar ddata a gasglwyd gan ddarparwyr am eu gweithlu.
- Gofal Cymdeithasol Cymru Arolwg peilot o'r gweithlu – adroddiad cyffredinol o'r canfyddiadau. Mae hwn yn adrodd ar ganlyniadau arolwg cafodd pawb sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru fynediad ato. Mae'n cynnwys data ar 3,119 o weithwyr, 6.5 y cant o'r gweithlu cofrestredig.